# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dydd Llun, 14eg Medi 2015

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, S.L. Davies, W.R.A. Davies, J.K. Howell, J.D. James (yn lle T. Devichand), H.I. Jones, S. Matthews, J. Owen, H.B. Shepardson, J. Thomas ac E.G. Thomas (Is-gadeirydd)

**Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol
W. Walters, Prif Weithredwr Cynorthwyol - Adfywio a Pholisi
I. Jones, Pennaeth Hamdden a Chwaraeon
C. Daniels, Uwch-reolwr Chwaraeon a Hamdden
D. Eldred, Cyfrifydd Grŵp
H.L. Morgan, Rheolwr Dros Dro Datblygu Economaidd
S. Walters, Rheolwr Dros Dro Datblygu Economaidd
B. Dolan, Uwch-ymgynghorydd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 3:00yp - 4:50yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Devichand, G. Thomas a Meryl Gravell (Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adfywio a Hamdden).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL.

Rhoddwyd rhestr i'r Pwyllgor o'r eitemau fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 9 Tachwedd 2015.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2015/16

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiadau Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf mewn perthynas â'r Gwasanaethau Adfywio a Hamdden a'r

Gwasanaethau Tai am y cyfnod diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16.

Trafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

Gofynnwyd am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch siop a Llethr Sgïo Pen-bre. Dywedodd Pennaeth Chwaraeon a Hamdden y gostyngwyd lefel y stoc dros y 2 flynedd diwethaf ac y cyfyngwyd ar y math i'r un a ddefnyddir yn uniongyrchol ar y llethr. Roedd hyn wedi helpu o ran maint yr elw.

Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Harbwr Porth Tywyn. Dywedodd Pennaeth Chwaraeon a Hamdden iddo gwrdd ag Adran yr Amgylchedd i ddatblygu'r tendr ar gyfer y gwaith carthu yn yr harbwr mewnol a gytunwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd Gweithredol. Gofynnodd y Pwyllgor am i adroddiad y Bwrdd Gweithredol gael ei ddosbarthu iddynt.

Gofynnwyd pam roedd yr Awdurdod yn cynnal canolfannau hamdden y tu allan i'r 3 brif dref o ystyried costau uchel eu cynnal. Dywedodd Pennaeth Chwaraeon a Hamdden fod y cyfleusterau eraill yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i gymunedau lleol yn yr ardaloedd pellaf megis Sanclêr a Chastellnewydd Emlyn.

Yn ateb i gwestiwn ynghylch bod swyddi gwag yn y Gwasanaethau Tai yn effeithio'n andwyol ar allu'r staff, dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd ef yn gwybod am unrhyw broblemau ond y byddai'n holi'r tîm rheoli ac yn ymateb ar ôl y cyfarfod.

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch y prosiect cyfalaf Stryd Cyfleoedd yn Llanelli. Dywedodd Rheolwr Dros Dro Datblygu Economaidd y sicrhawyd cyllid o £1 filiwn dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cam cyntaf yn cynnwys prynu 3 eiddo yng nghanol y dref a fyddai'n cael eu hailfodelu i ddarparu eiddo masnachol llai ar y lloriau gwaelod a phreswylfeydd fforddiadwy ar y lloriau uchaf. Byddai'r gwaith yn dechrau yn 2016.

Gofynnwyd am ragor o fanylion ynghylch y posibilrwydd y byddai gorwariant o £1.1 filiwn yn Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol - Adfywio a Pholisi y rhagamcanwyd gwerth y tir yn wreiddiol ar ddechrau'r broses Gorchymyn Prynu Gorfodol ar sail y defnydd tir a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Unedol. Ers hynny roedd hyn wedi cael ei herio gan y perchnogion ac roedd yr Awdurdod yn cyd-drafod â'r perchnogion a'r Prisiwr Rhanbarthol er mwyn cytuno ar y telerau terfynol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad**

## 6. DEWISIADAU RHEOLI ERAILL MEWN PERTHYNAS Â HAMDDEN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar ganlyniadau adolygiad o'r holl ddewisiadau rheoli posibl ar gyfer portffolio'r cyfleusterau hamdden a diwylliant. Roedd y Pwyllgor yn cael ei ofyn i ystyried ac i roi sylwadau ar y dewisiadau arfaethedig, yn bennaf er mwyn ceisio llunio partneriaeth â Sefydliad Dosbarthu Dielw (NPDO) presennol neu hybrid ar gyfer y Gwasanaethau Chwaraeon, Hamdden a Theatr.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y £191k o arbedion y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol mai'r swm hwn fyddai'r arbedion yn y trethi wrth drosglwyddo'r gwasanaethau ond byddai'r Awdurdod yn ceisio cael llawer mwy o ostyngiad yn y gost. Roedd angen profi'r farchnad er mwyn sicrhau y byddai modd cyflawni'r arbedion costau. Byddai cyfle i graffu ar y manylion maes o law.

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch fforddiadwyedd cael canolfan hamdden newydd yn Llanelli. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod cyfuniad o ffactorau a bod potensial o gael hyd at £9 miliwn o gyllid o Gyd-fenter Llanelli. Dylai model Dylunio Adeiladu Gweithredu a Chynnal a Chadw leihau'r costau gweithredu i'r eithaf a'r gobaith oedd y byddai benthyciadau heb eu cynnal yn cyllido'r gweddill yn ogystal ag unrhyw arbedion refeniw. Hefyd byddai Canolfan newydd yn rhoi cyfle i ddarparu amrywiaeth o gyfleusterau dan do o safon nad oeddynt ar gael yn y rhan honno o'r sir ar hyn o bryd, sef cyrchfan yn hytrach na chanolfan hamdden draddodiadol.

Yn ateb i gwestiwn ychwanegol ynghylch methiant yn y gorffennol o ran trefniadau rheoli gan gyflenwyr allanol ar gyfer y ganolfan bresennol, dywedodd Pennaeth Chwaraeon a Hamdden fod y trefniadau hynny yn rhai a oedd o dan gontract rheoli haearnaidd ac anhyblyg iawn gyda chwmni masnachol. Bellach roeddynt yn chwilio am gontract oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau tymor hwy gyda chyfle i gynllunio buddsoddiadau dros gyfnod hwy. Hefyd byddai'n bosibl pennu'r strwythur codi tâl cychwynnol a'i gysylltu â chost chwyddiant yn ogystal â chanlyniadau megis lefelau cyfranogiad. Hefyd byddai trefniadau monitro'n cael eu rhoi ar waith. Mantais arall llunio partneriaeth ag NPDO presennol oedd y byddai ganddynt eisoes systemau, gweithdrefnau a chymorth swyddfa gefn a fyddai wedi'u teilwra ar gyfer hamdden. Hefyd byddai'n lleihau'r risgiau i'r Awdurdod oherwydd byddai gan NPDO a fyddai'n bod eisoes hanes o lwyddo ym maes rhedeg gwasanaethau o'r fath.

Cyfeiriwyd at y gwasanaethau a eithriwyd o'r cynnig a gofynnwyd pam roedd y rhain yn cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus. Nododd Pennaeth Chwaraeon a Hamdden fod yr agweddau cyfreithiol o'r gwasanaeth hwn wedi trosglwyddo i Adran yr Amgylchedd yn Ebrill 2015.

Cyfeiriwyd at y gwasanaethau oedd yn weddill a mynegwyd pryderon y dylai ymchwil i fodelau rheoli eraill ddechrau cyn gynted ag y bo modd o ystyried bod angen gwneud arbedion sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Byddai angen symud ymlaen yn ofalus o ystyried natur y gwasanaethau hynny ac er mwyn bod yn hyderus y gellid darparu gwasanaethau cynaliadwy o safon uchel. Roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol yn cytuno â hyn. Byddai'n rhaid i'r Awdurdod wybod yn iawn beth y byddai'n gofyn i'r farchnad ei ddarparu. Dywedodd fod rhywfaint o waith rhagarweiniol wedi cael ei wneud mewn perthynas â llyfrgelloedd ac amgueddfeydd. Cytunodd y byddai'n ailedrych ar y mater hwn.

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch yr opsiwn i greu NPDO newydd nad oedd yn cael ei ystyried ymhellach. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol y byddai gan hwnnw lai o hanes o lwyddo nag NPDO oedd yn bodoli eisoes ac y byddai'n cymryd llawer mwy i leihau costau swyddfa gefn gan fod darpariaeth fewnol yn fwy costus. Ni fyddai'n bosibl cyflawni'r nod ariannol net o fewn yr amserlen gyffredinol. Ychwanegodd Pennaeth Chwaraeon a Hamdden y

gallai cael NPDO newydd olygu y byddai ef a'i staff yn cyflwyno cais yn erbyn NPDOau eraill a fyddai'n bodoli eisoes, fel rhan o'r broses gaffael a fyddai'n eu hatal rhag bod yn rhan o'r broses asesu tendrau.

**PENDERFYNWYD:**

**6.1 Cefnogi'r cynnig bod y Cyngor hwn yn ceisio llunio partneriaeth â Sefydliad Dosbarthu Dielw (NPDO) presennol neu hybrid ar gyfer gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden yn ogystal â gwasanaethau Theatr fel yr argymhellir yn yr adroddiad.**

**6.2 Awgrymu'n barchus i'r Bwrdd Gweithredol bod y Cyfarwyddwr yn ymchwilio cyn gynted â phosibl i ddewisiadau rheoli eraill ar gyfer y gwasanaethau sy'n weddill yn yr isadran.**

## 7. EGLURHAD YNGHYLCH PEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIADAU CRAFFU

Nododd y Pwyllgor yr eglurhad dros beidio â chyflwyno adroddiad Fframwaith Contractwyr Newydd ac ymagwedd Sir Gaerfyrddin at y Cynllun Trwyddedu Cenedlaethol ar gyfer Landlordiaid Preifat.

**PENDERFYNWYD nodi'r rheswm dros beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 8. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 22AIN O FEHEFIN 2015 YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22ain Mehefin 2015 yn gofnod cywir.**

## 9. LLOFNODI BOD COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU AR Y CYD - CYMUNEDAU A GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD 23ain GORFFENNAF 2015, YN GOFNOD CYWIR

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y cyd rhwng y Pwyllgor Cymunedau a'r Pwyllgor Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a gynhaliwyd ar 23ain Gorffennaf 2015 yn gofnod cywir.**

________________________ __________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**